Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Mae Iechyd a Diogelwch yn fygythiad i ffeiriau pentref

Y gwirionedd Os credwch bopeth a ddarllenwch, mae iechyd a diogelwch yn gyfrifol am ganslo llawer o ddigwyddiadau difyr. Honnir bod rasys hwyaid plastig, ffeiriau pentref a hyd yn oed dawnsio morys i gyd wedi dioddef yn sgîl rheoliadau iechyd a diogelwch gormodol.

Mae pobl yn aml yn tybio bod y rheolau mor gymhleth nes ei bod yn ormod o ymdrech trefnu digwyddiad. Ond pan gaiff ei reoli'n synhwyrol, ni ddylai iechyd a diogelwch rwystro pethau rhag digwydd ac nid yw'n gwneud hynny.

Fel rhan o ddigwyddiad wedi'i reoli'n dda, mae cynllunio da a chamau ymarferol yn helpu i sicrhau bod pethau'n mynd rhagddynt yn ddidrafferth. Y peth pwysig yw sicrhau bod y rheolau iechyd a diogelwch yn addas at y diben ac y gweithredir arnynt. Yn sicr ni ddylai fod angen canslo digwyddiadau – rydym yma i achub bywydau, nid tarfu arnynt.

HSE

Am ragor o wybodaeth ewch i www.hse.gov.uk/myth/index.htm

Rhif 28 Gorffennaf 2009